



**Caru Gwenyn  
Bee Friendly**



**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**



## CANLLAW GWEITHREDU

Popeth sy' angen ichi ei wybod i ddangos bod eich mudiad neu'ch cymuned yn Caru Pryfed Peillio.

# CYNNWYS

CROESO I GANLLAW GWEITHREDU CARU GWENYN	4
AI DIM OND GWENYN SY’N CAEL HELP?	4
BETH YW’R HANES?	5
PAM HELPU PRYFED PEILLIO?	6
CARU GWENYN	6
RHEOLAETH GYNALIADWY AR ADNODDAU NATURIOL	8
MYND ATI I GARU GWENYN	8
CARU GWENYN – Y 4 THEMA:	10
Thema 1 – Bwyd – Gwneud yn siwr fod bwyd ar gyfer pryfed peillio yn eich ardal	10
Thema 2 – Cartref pum seren – Darparu lleoedd i bryfed peillio fyw ynddyn nhw	12
Thema 3 – Dim plaladdwyr na chwynladdwyr – Peidio â defnyddio cemegau sy’n gwneud drwg i bryfed peillio	14
Thema 4 – Hwyl – Cael y gymuned i gymryd rhan	17
CHWILIO AM WENYN UNIG	19
CEISIADAU A CHEISIADAU ADNEWYDDU	20
ADNODDAU A HELP	21
ADNODDAU I’CH HELPU CHI	21

“ MAE PRYFED AC ANTHROPODAU  
ERAILL Y TIR MOR BWYSIG, FYDDAI  
DYNOL RYW DDIM YN GALLU PARA  
MWY NAG YCHYDIG FISOEDD  
HEBDDYN NHW. ”

E.O Wilson., The Diversity of Life 1992



# CROESO I GANLLAW GWEITHREDU CARU GWENYN

Mae gwenyn, glöynnod byw a phryfed peillio eraill mewn trafferth am nifer o resymau.

Ond y newyddion da yw ein bod ni'n gallu helpu.

A dyna'n union y mae ein cynllun newydd **Caru Gwenyn** yn ceisio ei wneud!

Menter hollol newydd yw hon ar gyfer cymunedau a mudiadau cymunedol, ysgolion, cyrff cyhoeddus, cynghorau tref a chymuned, busnesau, prifysgolion a cholegau, addoldai ... a phob math o gyrff a sefydliadau eraill ledled Cymru.

## O'CH CHI'N GWYBOD?

Er eu bod mor fach, mae gwenyn yn hanfodol ar gyfer amgylchedd ac economi iach. Rydyn ni'n dibynnu arnyn nhw i beillio'r rhan fwyaf o'n ffrwythau a llysiau – byddai'n costio £1.8 biliwn i ffermwyr Prydain beillio'u cnydau heb wenyn.

Dyma'r cynllun cenedlaethol cyntaf o'i fath a'i amcan yw gwneud Cymru'n wlad sy'n caru pryfed peillio.

## AI DIM OND GWENYN SY'N CAEL HELP?

**Nage – rydym am helpu pob pryfedyn sy'n peillio.**

Mae pryfed peillio yn cynnwys gwenyn mêl, cacwn/gwenyn bwm a gwenyn unig eraill, rhai picwn/gwenyn meirch, glöynnod byw, gwyfynod a chlêr hofran, a rhai chwilod a chlêr/pryfaid.

Pe bai gwenyn, gwyfynod neu löynnod byw yn gallu siarad, beth fydden nhw'n gofyn inni amdano? Fwy na thebyg, bydden nhw am inni warchod a gwella'r manau lle mae eu bwyd yn tyfu a'r manau lle y maen nhw'n byw ac yn cysgodi, i beidio â defnyddio cemegau niweidiol ac inni ddweud wrth gymaint o bobl â phosib am y problemau maen nhw'n eu hwynebu – er mwyn i fwy o bobl allu helpu.

Dyna pam rydyn ni'n gofyn ichi ymuno â ni i weithredu 4 prif thema – **BWYD, CARTREF PUM SEREN (CYNEFIN), DIM PLALADDWYR a HWYL** – a chreu gwlad o gymunedau, ysgolion, busnesau, prifysgolion, colegau, cyrff cyhoeddus, addoldai a sefydliadau eraill sy'n Caru Pryfed Peillio.



Felly, os hoffech fyw mewn Tref neu Gymuned sy'n Caru Gwenyn, neu weithio i Fusnes sy'n Caru Gwenyn neu astudio mewn Ysgol, Prifysgol neu Goleg sy'n Caru Gwenyn, yna darllenwch ymlaen i ddysgu mwy am y cynllun newydd a difyr hwn.

Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i bryfed peillio Cymru trwy weithio at y nod o fod y wlad Caru Pryfed Peillio gynta yn y byd!

### O'CH CHI'N GWYBOD?

Rhwng 1930-1984, mae Cymru a Lloegr wedi colli 97% o'u dolydd pori traddodiadol ar lawr gwlad.

## BETH YW'R HANES?

Mae llawer o grwpiau ac unigolion wedi bod yn gweithio i warchod anifeiliaid a phlanhigion, cynefinoedd, natur ac ecosystemau yng Nghymru ers blynyddoedd mawr.

Yn 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu i warchod pryfed peillio yng Nghymru, o'r enw'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio.

(pdf.cynllungweithreduargyferpryfedpeillio)

Cafodd Tasglu o fudiadau ac unigolion ei sefydlu i roi'r cynllun ar waith.



## PAM HELPU PRYFED PEILLIO?

- » Mae nifer y pryfed peillio wedi cwmpo'n ddifrifol iawn dros y tri deg mlynedd ddiwethaf. Mae tystiolaeth bod nifer gwenyn unig, gwenyn bwm a rhai clêr hofran, yn enwedig, wedi dirywio.
- » Mae angen pryfed i beillio cynydau masnachol, ffrwythau meddal, perllannau, cynydau garddwrol a blodau gwyllt a dof.
- » Mae amgylchedd naturiol amrywiol a deniadol yn dda i bryfed peillio, ac i bobl hefyd.
- » Mae mannau gwyrdd naturiol a chyswllt â natur yn hanfodol i'n lles.
- » Mae dwndwr y gwenyn yn creu ymdeimlad o le ac mae'n un o synau'r haf.
- » Mae llawer o bryfed peillio, yn enwedig clêr a gwyfynod, yn fwyd i adar. Nid dwndwr y gwenyn yn unig rydyn ni am ei glywed unwaith eto yn ein cymunedau, ond hefyd cri gwenoliaid duon a gwenoliaid y bondo yn hela'u tamaid uwch toeon ein tai.

## CARU GWENYN

Mae **Caru Gwenyn** yn ffordd newydd, hwyliog ac arloesol o ddysgu cymunedau a sefydliadau ym mhob rhan o Gymru am bryfed peillio a chynefinoedd, ac o greu atebion lleol i helpu gwenyn a phryfed peillio eraill. Bydd gwella'r amgylchedd naturiol yn gwneud y llefydd hyn yn fwy deniadol i bobl leol ac ymwelwyr, ac yn hwb i les y gymuned.

Er mai **Caru Gwenyn** yw enw'r cynllun, rydyn ni am i bobl helpu pob pryfedyn sy'n peillio, nid gwenyn yn unig.

Mae **Caru Cymru** wedi'i rannu'n bedair thema. Mae'r tair thema gyntaf yn ystyried beth sydd ei angen ar bryfed peillio i ffynnu: amgylchedd sy'n llawn bwyd amrywiol a maethlon, dŵr a mannau nythu a chynefin glân, heb lygredd na phlaladdwyr. Mae'r bedwaredd thema yn canolbwyntio ar gael y gymuned i gyfrannu a helpu.

## Y pedwar amcan yw:

1. **Bwyd** – gwneud yn siŵr bod bwyd ar gyfer pryfed peillio yn eich ardal
2. **Cartre pum seren** – darparu lleoedd i bryfed peillio fyw ynddyn nhw
3. **Dim plaladdwyr na chwynladdwyr** – addewid i beidio â defnyddio cemegau sy'n gwneud drwg i bryfed peillio
4. **Hwyl** – cael y gymuned i gymryd rhan ac esbonio wrth bobl pam eich bod yn helpu pryfed peillio.

Fel grŵp neu fudiad cymunedol, neu gorff cyhoeddus sy'n gwasanaethu pobl leol, neu fusnes â chwsmeriaid lleol, chi sy yn y sefyllfa orau i ddweud pa gamau fyddai fwyaf priodol i'w cymryd yn eich ardal. Gallai'r hyn y dylai ysgol yng Nghasnewydd ei wneud, er enghraifft, fod yn wahanol iawn i'r hyn y dylai pentref ar Ynys Môn neu fusnes yn y Drenewydd ei wneud.

Rydyn ni'n cynnig syniadau o bethau i'w gwneud, ar sail ein profiad yn y gorffennol, ond croeso ichi greu'ch cynllun gweithredu'ch hun sy'n ystyried y posibiladau a'r cyfleoedd

sy'n bod yn eich cymuned, er enghraifft.

Mae'r tudalennau canlynol felly'n cynnig syniadau ar gyfer gweithredu a hefyd dolenni i gael mwy o wybodaeth.

Onid y peth pwysig i'w gofio yw'ch bod yn cael hwyl a'ch bod yn cael cymaint o bobl â phosib i **Garu Gwenyn**.

Cofiwch, nid dros wenyn yn unig y byddwch yn gweithio, ond dros bob pryfedyn peillio – mae angen helpu clêr hofran, glöynnod byw a gwyfynod hefyd.



ffoto: Jan Miller at [www.7wells.co.uk](http://www.7wells.co.uk)



ffoto: © Steven Falk

## RHEOLAETH GYNALIADWY AR ADNODDAU NATURIOL

Mae'r Datganiad Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod pryfed peillio yn prinhaus a bod hynny'n peryglu ein gallu i gynhyrchu bwyd, pren a ffibr. Mae darparu mwy o seilwaith trefol gwyrdd a mesurau cynefinoedd iseldir gwell yn flaenoriaethau. Mae rheoli mannau gwyrdd a chymryd camau eraill i gefnogi pryfed peillio yn enghraifft ymarferol o Reolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol.

Bydd cymryd camau o dan bedair thema Caru Gwenyn yn darparu nifer o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i gymunedau lleol a hefyd yn cyfrannu at nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## MYND ATI I GARU GWENYN

Beth sydd angen ei wneud?

Y syniad yw ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gael mwy o bobl Cymru i wybod mwy am y problemau sy'n wynebu pryfed peillio ac i gymryd camau i'w diogelu nhw a'u cynefinoedd a'u bwyd. Trwy weithio gyda'n gilydd, y gobaith yw ychwanegu'r teitl Gwlad Caru Pryfed Peillio gynta'r byd at deitl Cymru fel Gwlad Masnach Deg gynta'r byd.

Ein syniad yw bod y grwpiau sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn dewis o leiaf un syniad gweithredu o dan bob un o'r 4 thema ar y tudalennau canlynol. Rydyn ni wedi cynnig syniadau i'ch helpu ond os oes gennych eich syniadau eich hunan o fewn y themâu hyn sy'n addas i'ch ardal neu i'ch sefydliad chi, gorau oll.

Y peth pwysig yw bod pawb yn gweithio ar o leiaf un syniad o dan bob thema (**BWYD, CARTREF PUM SEREN (CYNEFIN), DIM PLALADDWYR A HWYL**)



## Cynllun gweithredu posibl:

- » Ymunwch â phobl eraill sydd â'r un bryd â chi yn eich cymuned neu'ch sefydliad neu'ch busnes i lunio cynllun gweithredu ar gyfer eich prosiect
- » Dewiswch syniadau o dan y Thema Bwyd, y Thema Cartref Pum Seren, y Thema Dim Plaladdwyr a'r Thema Hwyl. (Dewiswch syniadau sy'n addas i'ch ardal neu'ch sefydliad chi, sy'n hwyl ac yn ymarferol. Byddai hynny'n gwneud pethau'n haws ichi, yn enwedig os ydych yn grŵp newydd)
- » Os ydych am gymryd rhan, rhowch wybod inni trwy lenwi'r ffurflen gais ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
- » Hysbyseb wch yn eich ardal i roi gwybod i bobl beth rydych yn ei wneud a'u gwahodd i ymuno â'ch prosiect
- » Siaradwch am eich prosiect ar y cyfryngau cymdeithasol – dangoswch ffotograffau i ddangos y gwahaniaeth rydych yn ei wneud
- » Byddwch yn wenynen ddiwyd
- » Dywedwch sut mae pethau'n mynd o dan y 4 thema –

gallwch ddefnyddio Arolwg OPAL Polli:nation<sup>1</sup> fel dull safonol o fonitro pryfed peillio, cyn ac ar ôl cynnal eich syniadau.

- » Trefnwch ddathliad i ddangos eich bod yn Dref neu Gymuned neu Fudiad sy'n **Caru Gwenyn**, neu'n Fusnes sy'n **Caru Gwenyn**, neu'n Ysgol, Prifysgol neu Goleg sy'n **Caru Gwenyn** neu'n Gorff Cyhoeddus sy'n **Caru Gwenyn** neu fath arall o sefydliad neu grŵp.



<sup>1</sup> [www.opalexplornature.org/wales](http://www.opalexplornature.org/wales)

# CARU GWENYN – Y 4 THEMA

## THEMA 1 – BWYD - GWNEUD YN SIŴR BOD BWYD AR GYFER PRYFED PEILLIO YN EICH ARDAL

Pam mae hyn yn bwysig?  
Beth gawsoch chi i frecwast  
bore yma? Jam ar dost?  
Ffrwythau ffres?

Ffrwythau sych yn eich muesli  
neu domatos wedi'u grilio?  
Neu efallai sudd ffrwythau  
neu goffi?

Daeth y cyfan oddi wrth wenyn.  
Mae'n hawdd meddwl mai'r  
cyfan mae gwenyn yn ei wneud  
yw cynhyrchu mêl. Ond mae'n  
bwysig sylweddoli'n bod yn  
dibynnu arnyn nhw am lawer  
o'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta,  
gan gynnwys y rhan fwyaf o'r  
ffrwythau a llysiau. Mae gwenyn  
yn hanfodol i'n heconomi –  
hebbyddyn nhw, byddai'n costio  
£1.8 biliwn y flwyddyn i  
ffermwrwr Prydain beillio'u  
cnydau. Mewn byd heb wenyn,  
byddai bwyd yn costio mwy  
i'w gynhyrchu a byddai'n  
ergyd drom i'r economi<sup>2</sup>.

## O'CH CHI'N GWYBOD?

Mae pryfed peillio'n byw ar baill  
a neithdar gan eu casglu oddi  
ar flodau o bob math; mae  
angen amrywiaeth o lystyfiant  
arnynt e.e. perthi (gwrychoedd),  
prysgwydd a phorfa hir i gysgodi  
a nythu, a thyllau yn y pridd  
ac mewn boncyffion coed i  
aeafu. Mae anghenion larfâu  
pryfed peillio'n wahanol yn aml i  
anghenion pryfed llawndwf.  
Er mwyn gallu cynnal amrywiaeth  
o bryfed peillio, bydd angen  
ffynhonnell neithdar o ddechrau'r  
gwanwyn tan ganol hydref.

Syniadau gweithredu – dewiswch  
un o'r rhain neu feddylwch am  
eich syniad eich hun a dweud  
wrthym amdano

» Darparu manau sy'n dda  
am fwyd i bryfed peillio –  
darllenwch y rhestr o blanhigion  
sy'n dda ar gyfer pryfed peillio  
ar wefan Bioamrywiaeth  
Cymru, gan gynnwys  
planhigion ar gyfer glöynnod  
byw, gwyfynod, clêr hofran,  
gwenyn bwm a gwenyn unig  
llawndwf (sef mwyafrif llethol  
pryfed peillio Cymru). Rhestrir  
hefyd blanhigion sy'n dda fel  
bwyd i larfau glöynnod byw a  
rhai gwyfynod.

[www.biodiversitywales.org.uk/](http://www.biodiversitywales.org.uk/)  
Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-  
gyfer-Pryfed-Peillio

- » Plannu planhigion brodorol sy'n cael eu bwyta gan lindys (sy'n golygu eu bod yn dda hefyd i löynnod byw a gwyfynod)
- » Creu dolydd blodau gwyllt neu blannwch flodau, llwyni a choed gardd sy'n llawn pail a neithdar i weny a phryfed peillio eraill e.e. mewn parciau, ar ymylon ffyrdd, ar dir glas mewn trefi ac ar dir o gwmpas swyddfeydd ac ati
- » Hau cymysgeddau o flodau gwyllt brodorol ar gylchfannau neu ar welyau ffurfiol yn lle'r blodau arferol
- » Peidio â thorri'r borfa mor aml – 2-3 thoriad y flwyddyn: un cynnar; un hwyr. Gadewch ambell i lain o borfa dyfu'n hirach a'i thorri unwaith y flwyddyn. Ewch â'r torion rhag boddi planhigion tyner. Gadewch i blanhigion flodeuo a hadu
- » Gweithio gyda phobl leol a'u hannog i dyfu blodau a phlanhigion sy'n llawn neithdar yn eu gerddi – y nod yw cael cymaint ohonyn nhw yn eu blodau dros gymaint o fisoedd â phosib, gan gynnwys dechrau'r gwanwyn a diwedd yr haf a'r hydref
- » Cynghori pobl i blannu blodau agored eu siâp fel ei bod yn hawdd i bryfed gael gafael ar y neithdar a'r pail
- » Plannu mathau hen ffasiwn gan eu bod nhw'n tueddu i gynhyrchu mwy o neithdar na'r ffurfiau modern, a dewiswch fathau sydd â blodau sengl
- » Cofio bod angen planhigion gwahanol ar lindys glöynnod byw a gwyfynod
- » Plannu planhigion sy'n aroglu yn y nos i ddenu gwyfynod
- » Gadael manau gwyllt lle gall planhigion da ar gyfer larfâu fel danadl dyfu.



## THEMA 2 – CARTRE PUM SEREN – DARPARU LLEOEDD I BRYFED PEILLIO FYW YNDYDYN NHW

### PAM MAE HYN YN BWYSIG?

Ers 1900, mae Prydain wedi gollu 20 rhywogaeth o wenyn ac mae 35 arall mewn perygl o ddiflannu. Does yr un ohonyn nhw'n cael eu hamddiffyn gan y gyfraith. Ar draws Ewrop, mae un o bob deg rhywogaeth o wenyn gwyllt yn wynebu difodiant.

### O'CH CHI'N GWYBOD?

Mae'r dirywiad yn nifer ac iechyd gwenyn a phryfed peillio eraill yn destun pryder yn y Deyrnas Unedig a gweddill y byd. Rhwng 1985 a 2005, gwelwyd 23% o ostyngiad yn nifer y gwenyn mêl yng Nghymru. Mae glöynnod byw, clêr hofran a llawer o wyfnod hefyd yn prinhaus. Mae dolydd a chynefinoedd lled-naturaliol pwysig eraill hefyd yn diflannu.

### SYNIADAU GWEITHREDU – DEWISWCH UN O'R RHAIN NEU FEDDYLIWCH AM EICH SYNIAD EICH HUN A DWEUD WRTHYM AMDANO

» Creu cynefinoedd addas i glêr hofran ddodwy eu hwyau

ynddyn nhw, a denu pryfed peillio i'ch gardd trwy greu lagŵn ar gyfer clêr hofran<sup>3</sup> neu greu pyllau dŵr neu fannau gwlyb

- » Osgoi dinistrio cynefinoedd sy'n cael eu defnyddio gan wenyn unig a gwenyn bwm i nythu ynddyn nhw
- » Diogelu lleiniau o borfa hir, coed gwag, tyllau mawr a bach mewn walydd lle gall gwenyn nythu ynddyn nhw
- » Chwilio am leiniau o borfa fer neu gloddiau sy'n cynnal nythfeydd o wenyn sy'n nythu yn y pridd
- » Chwilio am hen waliau lle ceir nythfeydd o wenyn unig mewn hen fortar mâl, a gofalu nad yw'r waliau'n cael eu hailadeiladu na'u hailbwyntio heb wneud trefniadau ar gyfer y gwenyn unig
- » Datblygu a chynnal rhimynnau o borfa dwmpathog (eu torri bob 2-3 blynedd rhag iddynt droi'n brysg) fel manau nythu ar gyfer gwenyn bwm sy'n nythu ar ben y tir

- » Plannu coed helyg deilgrwn. Mae'r dail yn fwyd i lindys ac mae'r blodau'n ffynhonnell gynnar o baill i freninesau gwenyn bwm
- » Plannu perth o lwyni brodorol
- » Rhoi cychod gwenyn ar eich tir (ewch i wefan Cymdeithas Gwenynwyr Cymru i ddysgu mwy a chysylltu â Chymdeithasau Gwenynwyr ledled Cymru. Mae gan CGC gynllun lle gall gwenynwr ddod â rhoi cwch ar eich tir)

- » Mae gwesty pryfed yn lle i wenyn unig nythu ynddo. Codwch o leiaf un gwesty pryfed mewn lle addas (yn llygad yr haul, yn wynebu'r de neu'r de-ddwyrain, metr o'r tir, heb dyfiant yn cau'r fynedfa, a tho cryf i gadw glaw draw). Mae'n ffordd dda i ddysgu am wenyn unig am eu bod nhw mor ddiddorol. Gofalwch am y gwesty flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan lanhau ac adnewyddu tiwbiau nythu a deunydd yn ôl y gofyn.





## THEMA 3 – DIM PLALADDWYR NA CHWYNLADDWYR – PEIDIO Â DEFNYDDIO CEMEGAU SY’N GWNEUD DRWG I BRYFED PEILLIO

### PAM MAE HYN YN BWYSIG?

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae mwy a mwy yn poeni am blaladdwyr o’r enw neonicotinoids. Mae’n blaladdwr systemig sy’n golygu fod y planhigyn yn ei godi ac yn ei gludo i bob rhan ohono (dail, blodau, gwreiddiau a choesau yn ogystal â’r paill a’r neithdar).

Mae ymchwil ddiweddar yn dangos bod tri math o blaladdwr neonicotinoid (clothianidin, imidacloprid a thiamethoxam) o bosib yn effeithio’n ddrwg ar iechyd gwenyn. Oherwydd y pryderon, mae’r Comisiwn Ewropeaidd wedi gosod cyfyngiadau ar eu defnydd wrth drin hadau, pridd (gronynnau) a dail ar blanhigion ac ydau sy’n denu gwenyn. Mae pryderon hefyd ynghylch eu heffaith ar löynnod byw ac mae’r dystiolaeth yn tyfu eu bod yn para’n actif yn y pridd am fisoedd, gan gael eu codi’n anfwriadol gan gnydau yn y tymor dilynol neu eu cario mewn llwch pridd i halogi chwyn blodeuog mewn mannau eraill neu bryfed.

Mae nifer o neonics ar gael i’r cyhoedd ar gyfer trin lawntiau, planhigion tŷ, planhigion pot a chnydau tai gwydr<sup>4</sup>.

### O’CH CHI’N GWYBOD?

Ym mis Ebrill 2016, cytunodd Cyngor Sir Dyfnaint ar gynllun i ddiogelu gwenyn rhag plaladdwyr niweidiol a bydd yn ceisio eu gwahardd ar dir y Cyngor.

### Syniadau Gweithredu – dewiswch un o’r rhain neu feddylwch am eich syniad eich hun a dweud wrthym amdano

- » Gweithio gyda phobl leol i’w hannog i beidio â defnyddio neu i ddefnyddio llai o blaladdwyr sy’n lladd pryfed peillio
- » Gweithio gyda phobl leol i’w hannog i beidio â defnyddio neu i ddefnyddio llai o chwynladdwyr sy’n lladd “chwyn” a all fod yn fwyd ac yn gartref i bryfed peillio
- » Gweithio gyda’r Cyngor Cymuned neu Awdurdod Lleol i’w hannog i wneud mwy o blaid pryfed peillio gan gynnwys peidio â defnyddio neu ddefnyddio llai o gemegau sy’n niweidiol i bryfed peillio ar dir o dan eu rheolaeth

» Gweithio gyda pherchenogion rhandiroedd i'w hannog i helpu i greu a rheoli cynefinoedd i bryfed peillio ar eu rhandiroedd ac i beidio â defnyddio neu i ddefnyddio llai o blaladdwyr a chwynladdwyr

» Codi ymwybyddiaeth yn fwy cyffredinol am effeithiau plaladdwyr ar bryfed peillio.



## O'CH CHI'N GWYBOD?

Mae gwenyn a'u cynnyrch wedi bod yn bwysig i'r Cymry ers y dyddiau cynnar. Mae sôn am wenyn a'u harferion a'u cynnyrch yng Nghyfreithiau Hywel. Yn yr oesoedd canol, roedd medd yn bwysig iawn. Diod feddwol yw medd wedi'i wneud o fêl a byddai disgwyl i drefi roi medd fel treth i'r Brenin yn ôl y cyfreithiau. Mae 'mêl, 'medd' a 'meddwi' yn tarddu o'r un gwreiddyn.

Roedd parodrwydd noddwyr i rannu'u medd yn fesur o'u haelioni yn ôl yr hen feirdd ac yn ôl cerdd y Gododdin yn y 6ed ganrif, am iddynt feddwi ar fedd y collodd Cymry'r Gogledd frwydr fawr Catraeth yn erbyn y Saeson. Mae llawer o dai a ffermydd wedi'u henwi ar ôl y wenynen.

## THEMA 4 – HWYL – CAEL Y GYMUNED I GYMRYD RHAN

### PAM MAE HYN YN BWYSIG?

Os yw lle'n dda i bryfed peillio, mae'n dda i bobl hefyd! Wedi'r cyfan, mae gwenyn, glöynnod byw a blodau gwyllt yn ein hatgoffa am ddyddiau hirfelyn tesog yr haf. Trwy ennyn diddordeb cymaint o bobl â phosib, yn enwedig pobl ifanc, byddwch yn eu helpu i ddysgu caru natur ac yn codi'r awydd ynddyn nhw i ddysgu mwy ac i ddiogelu'u hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Y peth gorau y gallwch ei wneud yw cael cymaint o bobl â phosib i ymuno â'ch prosiect

**Caru Gwenyn.** Bydd hynny'n sicrhau bod eich prosiect yn adlewyrchu anghenion lleol, bod cefnogaeth leol iddo, bydd yn ffordd i gael syniadau newydd a chlywed safbwyntiau gwahanol a gall fod yn ffordd i gael hyd i bartneriaid newydd.

Ac... yn bwysicach na dim ... mae'n HWYL!

**SYNIADAU GWEITHREDU –  
DEWISWCH UN O'R RHAIN NEU  
FEDDYLIWCH AM EICH SYNIAD  
EICH HUN A DWEUD WRTHYM  
AMDANO**

- » Gweithio gydag o leiaf un ysgol leol, meithrinfa, grŵp ieuencid neu grŵp cymunedol lleol i gynnal ‘diwrnod pryfed peillio’ blynyddol lle gall plant wisgo i fyny, dysgu am bryfed peillio, gwneud crefftau a phob math o bethau eraill
- » Trefnu neu fynd i o leiaf un digwyddiad y flwyddyn i hyrwyddo gweithgareddau i helpu pryfed peillio (gallai fod yn stondin mewn ffair leol neu ffair ysgol, ffilm neu ddarlith neu hyd yn oed rhywbeth fel sesiwn blasu mêl i staff yn eich busnes)
- » Cymryd rhan yn yr Wythnos Bioamrywiaeth Genedlaethol i ddangos y gwaith rydych chi’n ei wneud i helpu pryfed peillio – a dathlu Wythnos Ymwybyddiaeth Pryfed Peillio
- » Cymryd rhan yn Noson Genedlaethol y Gwyfynod – y dathliad blynyddol trwy Brydain ac Iwerddon i godi ymwybyddiaeth am wyfynod
- » Cymryd rhan yng Nghyfrifiad Mawr y Glöynnod Byw – arolwg trwy’r wlad sy’n ein helpu i asesu cyflwr ein hamgylchedd. Cafodd ei lansio yn 2010 ac erbyn hyn, dyma’r arolwg mwyaf o löynnod byw yn y byd. Cymerodd dros 52,000 o bobl ran ynddo yn 2015
- » Creu adran yr ‘ardd orau ar gyfer pryfed peillio’ yng nghystadleuaeth ‘Tref/Pentref yn ei Blodau’ a/neu’r ardd orau ar gyfer pryfed peillio yn y gweithle, busnes neu ysgol
- » Gweithio gyda grwpiau eraill yn eich cymuned ar brosiectau er lles pryfed peillio
- » Annog garddwyr, plant ac ysgolion i chwilio am un o’r gwenyn unig cyffredin a chyflwyno unrhyw gofnodion – gweler y blychau isod am syniadau
- » Dywedwch wrth y wasg leol beth rydych yn ei wneud a pham
- » Tynnu sylw cwsmeriaid, cleientiaid neu bartneriaid at yr hyn rydych yn ei wneud
- » Dod yn Bencampwr **Caru Gwenyn** – i ysbrydoli sefydliadau neu gymunedau eraill i gefnogi’r cynllun **Caru Gwenyn**.



“ MAE DYSGU PLENTYN I BEIDIO Â  
SATHRU AR LINDYSYN YR UN MOR  
WERTHFAWR I'R PLENTYN AG I'R  
LINDYSYN. ”

Bradley Millar



# CHWILIO AM WENYN UNIG

Yn yr haf, chwiliwch am **Gardwenyn y Gwlân**. Mae hwyl fawr i'w gael o edrych arni'n patrolio'i thiriogaeth o gwmpas blodau gan erlid pryfed eraill. Mae'n hawdd cael hyd iddi am ei bod yn ymweld â'r blodyn Clust yr Oen. Mae prinder cofnodion amdani yng Nghymru, felly bydd ysgolion, wrth gyflwyno'u cofnodion, yn cyfrannu at wyddoniaeth.

## GWELER

[www.bwars.com/content/anthidium-manicatum-wool-carder-bee-survey](http://www.bwars.com/content/anthidium-manicatum-wool-carder-bee-survey)

Yn yr hydref, **Chwiliwch am Wenynen yr Iorwg**. Mae'n hawdd ei hadnabod gan mai dim ond ar flodau'r iorwg y bydd yn bwydo, ar adeg pan na welwch wenyn unig eraill. Mae'n ddiddorol am ei bod yn dechrau ymgartrefu yng Nghymru, ar hyd Ddyffryn Hafren. Gallwch ddilyn ei hynt ar draws Cymru trwy edrych ar y map ar-lein ar wefan BWARS. Eto, byddwch yn cyfrannu at ein gwybodaeth wyddonol am y wenynen hon.

## GWELER

[www.bwars.com/content/colletes-hederae-mapping-project](http://www.bwars.com/content/colletes-hederae-mapping-project)



# CEISIADAU A CHEISIADAU ADNEWYDDU

## Gwneud cais llwyddiannus:

Er mwyn cael bod yn gymuned neu fudiad **Caru Gwenyn**, bydd angen ichi ddangos eich bod wedi cymryd camau llwyddiannus gyda 4 Thema **Caru Gwenyn**.

Cadwch gofnod o bopeth rydych yn ei wneud, eich gweithgareddau a'r sylw rydych wedi'i gael ar y cyfryngau.

Cysylltwch â Phencampwr **Caru Gwenyn** i gael cyngor a help.

**Pan fyddwch chi'n barod ac yn hyderus eich bod wedi bodloni pob thema:**

- 1. Cymerwch y ffurflen gais** o wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
- 2. Llenwch hi gan nodi** manylion o dan y pedair thema. Byddwch yn hwyluso'r broses trwy lenwi'r ffurflen yn electronig.
- 3. E-bostiwch y ffurflen gais** ar ôl ichi ei llenwi ac unrhyw wybodaeth ategol fel ffotograffau a deunydd y wasg at gwarchodnatur@llyw.cymru

Os na allwch ei chyflwyno'n electronig, postiwch y ffurflen at;

Caru Gwenyn  
Cangen Bioamrywiaeth a  
Chadwraeth Natur  
Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
SY23 3UR

## BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Bydd **Caru Gwenyn** yn cadarnhau bod eich cais wedi cyrraedd ac yn gofyn am ragor o wybodaeth os oes angen.

Bydd Pencampwr **Caru Gwenyn** yn asesu'ch cais ac yn rhoi ei ymateb ichi.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus – dathlwch! Cewch dystysgrif a chaiff logo **Caru Gwenyn** ei anfon at eich grŵp ichi gael ei ddefnyddio ar eich holl ddeunydd.

Os caiff eich cais ei wrthod, defnyddiwch y sylwadau yn yr ymateb i ddatblygu'r gweithgareddau a chynnig cais arall pan fyddwch chi'n gallu cynnig cais gwell.

## CADW STATWS CARU GWENYN

Bydd yn rhaid i bob cynllun Caru Gwenyn geisio cadw ei statws trwy gyflwyno cais adnewyddu flwyddyn ar ôl ennill y statws.

Gofalwch fod gennych gofnod eich bod yn gweithio at wireddu'r amcanion a chadwch fanylion unrhyw ddiwyddiadau rydych yn eu cynnal, hanes eich gwaith lleol, ffotograffau, sylw gan y cyfryngau ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Ar eich cais adnewyddu, bydd un o Bencampwyr Caru Gwenyn yn gweithio gyda chi i roi cyngor ichi.

## ADNODDAU A HELP

Os oes gennych gwestiynau cyffredinol am **Caru Gwenyn** neu os hoffech wneud cais neu gais adnewyddu, cysylltwch â: gwarchodnatur@llyw.cymru

Caru Gwenyn  
Cangen Bioamrywiaeth a  
Chadwraeth Natur  
Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
SY23 3UR

Adnoddau ar gyfer **Caru Gwenyn** a'r newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf

[www.biodiversitywales.org.uk/  
Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-  
gyfer-Pryfed-Peillio](http://www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio)

## ADNODDAU I'CH HELPU CHI

### GWYBODAETH GYFFREDINOL AM BRYFED PEILLIO

- » Bumblebee Conservation Trust  
[http://  
bumblebeeconservation.org/](http://bumblebeeconservation.org/)
- » Cyfeillion y Ddaear – bee cause  
[www.foe.co.uk/what\\_we\\_do/  
the\\_bee\\_cause\\_home\\_  
map\\_39371](http://www.foe.co.uk/what_we_do/the_bee_cause_home_map_39371)
- » Cyfeillgar i Wenyn Sir Fynwy  
[http://  
beefriendlymonmouthshire.org/](http://beefriendlymonmouthshire.org/)
- » Bees for development  
[www.beesfordevelopment.org/](http://www.beesfordevelopment.org/)

### GARDDIO AR GYFER PRYFED PEILLIO

- » Planhigion ar gyfer peillwyr a phe cyn garddio ar gyfer bywyd gwylt  
[www.biodiversitywales.org.uk/  
Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-  
gyfer-Pryfed-Peillio](http://www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio)

- » Royal Horticultural Society – Perfect for Pollinators  
[www.rhs.org.uk/science/conservation-biodiversity/wildlife/encourage-wildlife-to-your-garden/plants-for-pollinators](http://www.rhs.org.uk/science/conservation-biodiversity/wildlife/encourage-wildlife-to-your-garden/plants-for-pollinators)
- » Ymddiriedolaethau Natur – Garddio er lles Bywyd Gwyllt  
[www.wildlifetrusts.org/how-you-can-help/wildlife-gardening](http://www.wildlifetrusts.org/how-you-can-help/wildlife-gardening)
- » Wildlife Gardening Forum  
[www.wlgf.org/](http://www.wlgf.org/)
- » Cynllun ‘Grey to Green’ y Royal Horticultural Society  
[www.rhs.org.uk/science/gardening-in-a-changing-world/greening-grey-britain](http://www.rhs.org.uk/science/gardening-in-a-changing-world/greening-grey-britain)
- » RSPB – Gwneud eich gardd yn gartref i natur:  
[ww2.rspb.org.uk/makeahomeforwildlife/givenatureahomeinyourgarden/](http://ww2.rspb.org.uk/makeahomeforwildlife/givenatureahomeinyourgarden/)
- » Butterfly Conservation – cyngor ar arddio:  
<http://butterfly-conservation.org/292/gardening.html>  
<http://butterfly-conservation.org/3114-5576/gardening-for-butterflies-and-moths.html>
- » Plantlife – cyngor ar arddio  
[www.plantlife.org.uk/wildflower\\_garden](http://www.plantlife.org.uk/wildflower_garden)

## GWENYNA

- » Cymdeithas Gwenynwyr Cymru  
[www.wbka.com/](http://www.wbka.com/)  
[www.wbka.com/hive-locator/](http://www.wbka.com/hive-locator/)
- » National bee unit (bee base)  
[www.nationalbeeunit.com/](http://www.nationalbeeunit.com/)

## CYFRI PRYFED PEILLIO

- » Noson Genedlaethol y Gwyfynod  
[www.mothnight.info/www/](http://www.mothnight.info/www/)
- » Cyfrifiad Mawr y Glöynnod Byw  
[www.bigbutterflycount.org/](http://www.bigbutterflycount.org/)
- » Labordai awyr agored – polli:nation  
[www.opalexplornature.org/polli-nation](http://www.opalexplornature.org/polli-nation)
- » Blooms for Bees  
[www.bloomsforbees.co.uk/](http://www.bloomsforbees.co.uk/)

## MENTRAU ERAILL

- » Grow Wild  
[www.growwilduk.com/content/about-grow-wild](http://www.growwilduk.com/content/about-grow-wild)

## ASTUDIAETHAU ACHOS

- » Astudiaethau achos ar wefan CBC  
[www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-argyfer-Pryfed-Peillio](http://www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-argyfer-Pryfed-Peillio)